Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

# Arwyddion Tân Diangen

Mae GTADC yn ymroddedig i ddileu ATD a thrwy hyn lleihau nifer y cyrchoedd diangen. Mae ATD yn aflonyddgar i weithrediad eich sefydliad ac i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ill dau. Wrth leihau nifer y byddiniadau gan beiriannau tân brys, gostyngir y risg i'r gymuned a chriwiau'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn sylweddol. Golyga mynychu ysgogiadau ATD nad yw peiriannau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gael ar gyfer gwir danau ac achubiadau, yn ogystal ag aflonyddu hyfforddiant hanfodol a mentrau diogelwch cymunedol.

Caiff pob sefydliad eu hatgoffa taw cyfrifoldeb y person sy'n gyfrifol am yr adeilad yw cynnal a chadw larymau tân, lleihau larymau tân a gweithdrefnau i adnabod galwadau ffug.

Mae'r polisi a'r cyfarwyddyd cenedlaethol yn gofyn bod pob safle sydd â system larwm tân awtomatig yn meddu ar system hidlo galwadau o fewn y safle i sicrhau yr adnabyddir galwadau ffug cyn y gelwir y Gwasanaeth Tân.

**Ystadegau Sylfaenol**

GTA De Cymru 2010-2011

- Roedd Galwadau Ffug o fewn De Cymru yn cyfrif am21.31% o'r holl alwadau i'r Gwasanaeth Tân
- Cyfanswm y galwadau i Systemau Larymau Tân Awtomatig yw 6117 o ddigwyddiadau, a chofnodwyd 73 o ysgogiadau fel rhai maleisus
- O'r galwadau ffug, yn dilyn cwestiynu galwadau, adnabuwyd 11.46 % fel galwadau ffug ac ni wnaeth y Gwasanaeth Tân fynychu
- Roedd galwadau o Systemau Larwm Tân Awtomatig a ganfuwyd eu bod yn danau yn cyfrif am 2.86% o holl alwadau LTA

**Cyfarwyddyd Lleihau Galwadau Ffug**

A fyddech cystal â tharo golwg ar y ddogfen Cyfarwyddwyd Lleihau Galwadau Ffug am gyfarwyddyd arfer dda a syniadau ar y ffordd orau i leihau larymau ffug/diangen.

**Sylwer - Dylai unrhyw gamau fod yn destun asesiad risg rhag tân y safle.**

Mewn rhai sefydliadau, amcangyfrifir bod dros 70% o alwadau ffug yn larymau datrysadwy a'u bod yn destun i weithredoedd dynol. Mae'r safle, felly, yn ymwybodol o achos ysgogiad y larwm a'i fod yn ffug - fodd bynnag, mewn amryw o achosion, bydd y Gwasanaeth Tân dal yn cael eu danfon. Bydd mentrau lleihau galwadau GTADC yn annog gwell gweithdrefnau rheoli i leihau'r galwadau hyn.

Mae polisi GTADC yn seiliedig ar gyfarwyddyd cenedlaethol. Ei fwriad yw amlygu i safleoedd sydd â systemau larwm tân awtomatig taw eu cyfrifoldeb hwy yw rheoli eu systemau larymau tân a'u gweithdrefnau. Mae GTADC yn annog rheolaeth ragweithiol i leihau a gostwng galwadau ffug o fewn y safle a galwadau i'r Gwasanaeth Tân. Os bydd safle'n parhau i gynhyrchu larymau ffug a bod ychydig neu dim camau wedi'u cymryd i adfer y broblem, gellir cymryd camau pellach drwy'r broses rheoleiddio diogelwch tân.

Am gyfarwyddyd, cymorth ac ymholiadau pellach, cysylltwch â'r:

Ffôn: 01443 232713
ebost: iogelwchtan@decymru-tan.gov.uk